

Prifysgol Abertawe – Y weithdrefn ar gyfer dyrchafiad yn Athro (Gradd 11)

Cyflwyniad

Mae'r Brifysgol angen gweithlu sydd â'r sgiliau gwahaniaethol angenrheidiol ar gyfer sicrhau y gall ddarparu rhagoriaeth ym meysydd ymchwil, addysgu, dysgu, a phrofiad ehangach myfyriwr. Mae'r meini prawf ar gyfer dyrchafiad yn Athro yn adlewyrchu meini prawf y Llwybrau Gyrfa Academaidd (ACP) a'r Lefelau Perfformiad Dangosol.

Mae rolau Athrawiaethol yn adlewyrchiad o ragoriaeth barhaus drwy brofiad academaidd helaeth ac enw da sefydledig yn rhyngwladol neu ei gyfwerth o ran cyrhaeddiad, arwyddocâd ac effaith o fewn y ddisgyblaeth. Bydd Athrawon yn gwneud cyfraniad parhaus ac eithriadol i arweinyddiaeth a rheolaeth academaidd o fewn y brifysgol ac yn allanol.

Camau

Mae 3 prif gam i'r weithdrefn dyrchafiad academaidd yn Athro:

1. Gwneud cais
2. Y Pwyllgorau Dyrchafiad gwneud penderfyniadau
3. Trosglwyddo canlyniad y penderfyniad

1. Gwneud cais – 1 Medi hyd 30 Tachwedd

Dylai unigolion sy'n dymuno gwneud cais am ddyrchafiad yn Athro gyflwyno'u cais fel rhan o'r broses Adolygiad Datblygiad Proffesiynol (PDR). Mae'r PDR yn gyfle i'r cyflogai a'u hadolygwyr gael trafodaeth ystyrlon am eu cais ac archwilio a myfyrio ar unrhyw adborth defnyddiol er mwyn sicrhau cais cyn gryfed â phosibl. Bydd angen i ymgeiswyr lanlwytho'u ffurflen gais drwy'r PDR ar-lein yn ystod y cyfnod hwn.

Ni fydd y Pwyllgor yn ystyried dogfennaeth ategol i gefnogi'r cais. Dylid cynnwys yr holl wybodaeth gyda'r ffurflen gais am ddyrchafiad. Bydd yr adran Adnoddau Dynol (AD) yn atodi adroddiad am wybodaeth Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ymchwil, addysgu ac arloesi perthnasol i'r cais cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor Dyrchafiadau Academaidd yn ystyried pob gweithgarwch ac allbwn hyd at 30 Tachwedd.

Dylai ymgeiswyr nodi ar ba linyr y mae'r cais yn seiliedig a chwblhau adrannau'r ffurflen sy'n berthnasol i'w cais yn unig.

Mae'r meini prawf Llwybr Gyrfa Academaidd i'w gweld ar y we-dudalen Dyrchafiadau Academaidd.

Dylai ceisiadau am ddyrchafiad gynnwys enghreifftiau sy'n dangos sut mae'r ymgeisydd wedi cwrdd â'r meini prawf perthnasol (fel y'u nodir yn llinynnau perthnasol y meini prawf Athro). Rhoddir enghreifftiau dangosol yn y proffiliau ACP o sut y gellid arddangos y meini prawf, ond mae'n bwysig fodd bynnag bod ymgeiswyr yn darparu eu henghreifftiau eu hunain fel tystiolaeth o'r meini prawf.

Rhaid i'r enghreifftiau fod yn berthnasol ac yn gryno, gan ddarparu digon o wybodaeth er mwyn dangos sut y maent yn berthnasol i'r meini prawf. Mae ychydig o enghreifftiau cryno, da yn well na datganiadau esboniadol hirfaith. Gellir croesgyfeirio'r un enghraifft o fewn gwahanol feini prawf, ond, fodd bynnag, rhaid i ymgeiswyr ddangos sut y mae'r enghraifft yn berthnasol i bob un o'r meini prawf hynny.

Mae croeso i weithwyr sydd ar gontract cyfnod penodol wneud cais, hyd yn oed os yw eu cytundeb i fod i ddod i ben yn ystod y cyfnod dyrchafiad academaidd (1 Medi – 31 Mawrth). Mewn achosion o'r fath, pan fo cytundeb yn cael ei ymestyn, bydd y Pwyllgor yn ystyried y cais yn unol â'r weithdrefn. Os nad yw'r cytundeb yn cael ei ymestyn, ni fydd y cais yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **30 Tachwedd** bob blwyddyn. Ni chaiff ceisiadau a derbynnir ar ôl y dyddiad hwn eu hystyried.

2. Penderfyniadau a wneir gan y Pwyllgorau Dyrchafiad – 1 Rhagfyr hyd 30 Mawrth

i. Pwyllgorau Dyrchafiad Academaidd Traws-Golegol

O 1 Rhagfyr bydd Aelodau'r Pwyllgorau'n derbyn yr holl ffurflenni cais gan AD. Bydd gwybodaeth DPA ymchwil, addysgu ac arloesi'n cael ei darparu er mwyn helpu gyda'r broses o wneud penderfyniadau. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei darparu cyn i'r Pwyllgor gwrrd er mwyn rhoi cyfle i aelodau baratoi ac adolygu'r wybodaeth ymgeisio'n drylwyr ac felly eu galluogi i wneud penderfyniad teg a gwrthrychol ynglŷn ag a yw ymgeiswyr wedi dangos tystiolaeth o'r meini prawf ar gyfer dyrchafiad.

Bydd y pwyllgorau Traws-golegol yn astudio'r achosion a gyflwynir ac yn eu hasesu yn ôl meini prawf ACP Athro. Bydd y trafodaethau'n ddiuedd ac yn seiliedig ar y dystiolaeth ddogfennol. Bydd y pwyllgorau Traws-golegol yn adolygu pob cais ac yn penderfynu pa ymgeiswyr ddylai symud ymlaen i Gam ii – Geirdaon. Bydd y Pwyllgor yn dewis pob canolwr yn ofalus, gan ystyried yr enwau a ddarparwyd gan yr ymgeisydd.

Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Traws-golegol yn cytuno ar grynoded o'r rhesymau dros benderfyniadau'r Pwyllgor mewn paratoad ar gyfer Cam ii - y Pwyllgor Traws-golegol. Gyda chymorth Adnoddau Dynol (AD), bydd Pennaeth y Coleg, neu gynrychiolydd enwebedig, yn darparu'r canlyniad i'r holl ymgeiswyr ac yn darparu'r wybodaeth a gadarnhawyd gan Gadeirydd y Pwyllgor i'r ymgeisydd/ymgeiswyr aflwyddiannus. Cyfrifoldeb y Pennaeth Coleg perthnasol fydd cynnig cyngor ansoddol, adborth a chymorth i'r aelod o staff dan sylw.

ii. Geirdaon

Bydd AD yn cysylltu â'r canolwyr fel y cytunwyd yng Ngham i. Bydd pob canolwr yn academyddion amlwg a dylai o leiaf ddau ohonynt fod yn gyfarwydd â system ddyrchafiadau'r D.U. Gofynnir i ganolwyr roi sylwadau ar arweinyddiaeth yr ymgeisydd ynghyd â'r parch sydd tuag ato/ati o fewn y gymuned academaidd.

iii. Pwyllgorau Dyrchafiad Academaidd Traws-golegol

Ar ôl derbyn y geirdaon, bydd y Pwyllgor Traws-golegol yn ailymgynnull er mwyn adolygu a thrafod y geirdaon a dderbyniwyd. Ar sail yr wybodaeth hon, bydd y Pwyllgor yn adolygu pob cais ac yn penderfynu pa ymgeiswyr ddylai symud ymlaen i Gam iv – Pwyllgor y Brifysgol.

Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Traws-golegol yn cytuno ar grynoded o'r rhesymau dros y penderfyniadau. Gyda chymorth Adnoddau Dynol (AD), bydd Pennaeth y Coleg, neu gynrychiolydd enwebedig, yn darparu'r canlyniad i'r holl ymgeiswyr ac yn darparu'r wybodaeth a gadarnhawyd gan Gadeirydd y Pwyllgor i'r ymgeisydd/ymgeiswyr aflwyddiannus. Cyfrifoldeb y Pennaeth Coleg perthnasol fydd cynnig cyngor ansoddol, adborth a chymorth i'r aelod o staff dan sylw.

iv. Pwyllgor Dyrchafiad Academaidd y Brifysgol

Bydd Aelodau Pwyllgor y Brifysgol yn ystyried y ffurflen gais, gwybodaeth DPA ymchwil, addysgu ac arloesi, geirdaon a chrynoded y Pwyllgorau Traws-golegol. Bydd holl aelodau Pwyllgor y Brifysgol yn derbyn yr wybodaeth hon cyn i'r Pwyllgor gwrrd er mwyn rhoi cyfle iddynt baratoi ac adolygu'r wybodaeth ymgeisio'n drylwyr ac felly eu galluogi i wneud penderfyniad teg a gwrthrychol ynglŷn ag a yw ymgeiswyr wedi dangos tystiolaeth o'r meini prawf ar gyfer dyrchafiad.

Bydd Pwyllgor y Brifysgol yn astudio'r achosion a gyflwynir ac yn eu hasesu yn ôl meini prawf yr ACP Athro.

3. Trosglwyddo canlyniad y penderfyniad

Os yw Pwyllgor y Brifysgol yn penderfynu na fydd achos yn cael ei argymhell ar gyfer dyrchafiad, bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cytuno ar yr adborth. Gyda chymorth Adnoddau Dynol (AD), bydd Pennaeth y Coleg, neu gynrychiolydd enwebedig, yn darparu'r canlyniad i'r holl ymgeiswyr ac yn darparu'r wybodaeth a gadarnhawyd gan Gadeirydd y Pwyllgor i'r ymgeisydd/ymgeiswyr aflwyddiannus. Cyfrifoldeb y Pennaeth Coleg perthnasol fydd cynnig cyngor ansoddol, adborth a chymorth i'r aelod o staff dan sylw.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael gwybod yn ysgrifenedig. Bydd y telerau ac amodau a'r cyflog newydd yn weithredol o 1 Mawrth i bob ymgeisydd llwyddiannus. Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu dyrchafu i bwynt cychwyn y raddfa gyflog Broffesiynol, oni bai fod unrhyw amgylchiadau eithriadol i'w hystyried.

Bydd cyfnod prawf aelod o staff sydd ar gyfnod prawf ac sy'n cael ei ddyrchafu, yn dod i ben o 1 Mawrth.

Digwyddiad Cydnabod Dyrchafiadau – Mai/Mehafin

Caiff pob aelod o staff sydd wedi cael dyrchafiad eu gwahodd i ddigwyddiad cydnabod dyrchafiadau a gynhelir gan yr Is-ganghellor. Bydd y digwyddiad hwn yn cydnabod dyrchafiad yr ymgeiswyr llwyddiannus ynghyd â chyfraniad eu cyflawniadau i gynnydd Prifysgol Abertawe. Bydd yr unigolyn yn cael rhybudd ymlaen llaw o ddyddiad, amser, lleoliad a natur y digwyddiad.

Amgylchiadau Unigol

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i bolisi o gyfle cyfartal ac i gynnal ei gweithdrefnau dyrchafiadau'n unol â'r polisi hwnnw. Disgwylir i bob ymgeisydd gwrrd â'r safon ofynnol ar gyfer y radd; fodd bynnag, mae'r Brifysgol yn cydnabod y gallai amgylchiadau unigol fod wedi effeithio ar faint o weithgarwch a gyflawnwyd.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr nodi amgylchiadau unigol, megis seibiannau gyrfa neu unrhyw gyfnodau o absenoldeb gyda chaniatâd neu secondiad, neu unrhyw absenoldebau eraill, er enghraifft, cyfnodau mamolaeth neu seibiannau ar gyfer cyfrifoldebau gofalu, yn adran "**Amgylchiadau Unigol**" y ffurflen gais. Bydd Pwyllgorau Dyrchafiad yn cymryd yr adran "**Amgylchiadau Unigol**" i ystyriaeth, gan ystyried yr effaith y bydd hyn wedi'i gael ar y cais.

Rhannu swydd - bydd staff sy'n cael eu cyflogi yn unol â threfniant rhannu swydd yn cael eu hystyried am ddyrchafiad yn unigol. Os mai un aelod yn unig o'r bartneriaeth rhannu swydd sy'n llwyddo i gael dyrchafiad, byddwn yn delio ag effaith hyn ar sail pob achos yn unigol.

Cytundebau ar y cyd – os caiff ymgeisydd ei gyflogi gan fwy nag un cyflogwr, mae'n rhaid i'r dystiolaeth a gyflwynir yn y cais am ddyrchafiad ymwneud yn benodol â gwaith a wnaethpwyd ar gyfer Prifysgol Abertawe.

Aelodaeth Pwyllgorau

Wrth lunio aelodaeth y Pwyllgorau, rhoddir ystyriaeth i'r cydbwysedd o arbenigedd sydd ei angen ar gyfer asesu gwahanol agweddau o'r ACP yn ogystal ag i amrywiaeth. Yn arbennig, disgwylir y bydd amrywiaeth o ran aelodaeth. Rhaid i aelodau'r Pwyllgorau fod wedi ymgymryd â hyfforddiant cyfle cyfartal (e.e. pecyn hyfforddiant cydraddoldeb ar-lein Marshall).

Pan fo aelod o'r Pwyllgor wedi gwneud cais am ddyrchafiad, sicrheir bod cynrychiolydd addas yn mynychu'r Pwyllgor ac yn darparu'r arbenigedd perthnasol.

Datgan diddordeb

Mae'n ofynnol i Aelodau'r Pwyllgorau ddatgan diddordeb os oes ganddynt unrhyw gysylltiad personol agos ag ymgeisydd a allai effeithio ar eu gallu i wneud penderfyniad diduedd. Y Cadeirydd fydd yn penderfynu a ddylid gwahardd yr Aelod rhag ystyried yr achos. Os daw i'r amlwg yn ddiweddarach na wnaeth Aelod ddatgan diddordeb, gellir ystyried y mater o dan Ordinhad Ymddygiad, a Rhesymau Sylweddol eraill y Brifysgol dros Ddiswyddo.

Cyfrinachedd

Bydd yr holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r broses dyrchafiadau yn cael eu trin yn gwbl gyfrinachol gan bawb sydd ynghlwm â'r broses. Ni fydd Aelodau Pwyllgorau yn trafod ceisiadau neu drafodaethau Pwyllgorau gydag unrhyw un y tu allan i'r Pwyllgor oni bai bod AD yn rhoi caniatâd ymlaen llaw.

Apelio

Mae penderfyniad y Pwyllgor yn derfynol; nid oes hawl apelio.